

Polisi Amgylchedd

Mae gan Brifysgol Bangor oddeutu 10,000 o fyfyrwyr a 2,000 o aelodau staff ar ystad o ryw 100 o adeiladau ar draws 300+ hectar. Ein busnes craidd yw darparu addysgu ac ymchwil o ansawdd uchel a chymryd gofal da o'n staff, myfyrwyr, y gymuned a'r amgylchedd.


Rydym yn deall bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus a chwrdd â gofynion safon amgylcheddol ISO 14001: 2015. Byddwn nid yn unig yn ceisio diogelu ein hamgylchedd naturiol, ond hefyd yn mynd ati i geisio cyfleoedd i'w wella, gan hyrwyddo diwylliant o fod yn stiwardiaid yr amgylchedd ymysg ein staff a'n myfyrwyr a gweithio tuag at nodau datblygu cynaliadwy.

Bydd Prifysgol Bangor yn lleihau ei heffeithiau amgylcheddol niweidiol trwy:

- i. sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau
- ii. rheoli gwastraff trwy leihau, aildefnyddio a hyrwyddo ailgylchu
- iii. lleihau'r defnydd o ynni a dŵr
- iv. hyrwyddo mentrau trafniadaeth cynaliadwy
- v. lleihau ein cyfraniad at newid hinsawdd fyd-eang trwy gwtogi blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr
- vi. hyrwyddo a chynnyddu cadwraeth a chynnydd bioamrywiaeth ar draws ystâd y brifysgol
- vii. ymgorffori cynaliadwyedd yn y gweithdrefnau caffael
- viii. ymrwymo i atal llygru'r amgylchedd naturiol
- ix. codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymwybyddiaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ymysg staff a myfyrwyr trwy well cyfathrebu a chyd-gyfrannu
- x. ymgorffori datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ein cwricwla ar draws y brifysgol
- xi. sefydlu amcanion a thargedau amgylcheddol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol

Bydd y Polisi Amgylcheddol hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Dîm Perfformiad Amgylcheddol y Campws, yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Tasg Cynaliadwyedd, a'i adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Caiff ei rannu hefyd â phoblogaeth ehangach y brifysgol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol.

Llofnod gan:



Dyddiad: 30th April 2019

Yr Athro Graham Upton, Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor